Swyddfa’r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne Road
● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF
 01766 832 398  clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COPI DRAFFT

# COFNODION
# CYFARFOD ANARFEROL

# 9fed CHWEFROR 2022

**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS FERCHER 9fed o CHWEFROR 2022**
**AR LEIN AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cynghorydd: Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Alun Jones, Dafydd Dafis, Mark Thomas, Ronwen Roberts, Rory Francis.

**11234/02/22** 1. YMDDIHEURIADAU
Cynghorydd Nathan Jarvis a Glyn Daniels.

**11235/02/22** 2. DATGAN DIDDORDEB
**Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb**

**11236/02/22** **3.** MATERION BRYS
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
**Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

**DIM MATERION BRYS I'W TRAFOD.**

**11237/02/22** **4. Cytuno ar rhestr fer i gyfweld ar gyfer tenantiaeth Caffi'r Parc**

**Bu i'r Cynghorwyr drafod y 7 cais yn eu tro. Codwyd materion megis manylder y cynlluniau busnes, pa gymorth ariannol oedd ganddynt tu cefn, oedd y busnes yn cynnig rhywbeth i bawb yn y gymuned, yn ogystal ag ystyriaeth at telerau prydles y Pafiliwn.**
**PENDERFYNIAD:** Gwahodd 4 ymgeisydd am gyfweliad byr er mwyn cael sgwrs a holi am eu syniadau busnes ymhellach. Anelu i gyfweld y 4 nos Fercher nesaf, 16eg o Chwefror, 2022 er mwyn gallu gwneud penderfyniad sydyn, ond yn amlwg fydd gallu'r 4 i fynychu cyfweliad ar y noson hwnnw i'w gweld.

Roedd clod i weld 7 ymgeisydd yn dod ymlaen, ac mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda'r rheini nad oeddent ar y rhestr fer, a sicrhau bod nhw'n cael eu cyfeirio at adnoddau cymorth busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.09yh

COPI DRAFFT

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS LUN 14eg CHWEFROR 2022**
**AR LEIN am 7.00 y.h.**

**CEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 14eg CHWEFROR 2022**
**AR Y 7fed o CHWEFROR 2022.**

COPI DRAFFT